**Adroddiad ar gyfer:** **Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **Chwefror 27, 2013**

**Aelod Arweiniol / Swyddog:** **Y Cynghorydd Barbara Smith / Alan Smith**

**Awdur yr Adroddiad:** **Tony Ward**

**Teitl:** **Llythyr Asesu Gwelliant Swyddfa Archwilio Cymru**

---

## 1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

1.1. Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r Llythyr Asesu Gwelliant diweddaraf ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych, a roddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Ionawr 28ain 2013. Mae'r llythyr yn atodol yn Atodiad I.

## 2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

2.1. Mae'r adroddiad yma'n darparu gwybodaeth ynglŷn â Llythyr Asesu Gwelliant diweddaraf Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych. Mae hwn yn un o'r adroddiadau allanol allweddol a dderbynnir gan y Cyngor bob blwyddyn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y pwyllgor yn ystyried yr adroddiad, yn cynnwys y ddau gynnig newydd ar gyfer gwelliant ar dudalen 7 y Llythyr Asesu Gwelliant.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'r Llythyr Asesu Gwelliant yn adrodd casgliadau Archwilydd Cyffredinol Cymru o'i archwiliad a'i waith asesu o ran a ydi'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi cyfarfod â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae gwaith manylach ar drefniadau'r Cyngor i gefnogi rheolaeth perfformiad ac adrodd perfformiad yn digwydd ar hyn o bryd, a bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith i gyd (a gwaith rheolyddion perthnasol eraill yn ystod 2012-13) pan fydd yn cyhoeddi Adroddiad Gwelliant Blynyddol ar gyfer y Cyngor erbyn diwedd Mawrth 2013. Fe gyflwynir yr Adroddiad Gwelliant Blynyddol hwn i'r pwyllgor ar Ebrill 10fed 2013.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw'r adroddiad yn gofyn am benderfyniad.

## 6. Beth fydd o'n ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Does yna ddim oblygiadau cost yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai templed yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd fod yn atodol fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1. Does yna ddim gofyniad am asesiad effaith cydraddoldeb gan na fydd penderfyniad a fyddai'n golygu unrhyw newid i staff neu'r gymuned, yn ganlyniad i'r adroddiad hwn. Felly ni fydd ag effaith negyddol anghymesur ar bobl sy'n rhannu nodweddion penodedig a ddiogelir.

**8. Pa ymgynghoriadau a gafwyd â Chraffu ac eraill?**

8.1. Cyflwynwyd drafft o'r Llythyr Asesu Gwelliant i'r Prif Weithredwr, a darparwyd adborth, cyn terfynu'r llythyr. Cyflwynwyd y Llythyr Asesu Gwelliant hefyd er gwybodaeth i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar Chwefror 21$^{ain}$ 2013.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Dim angen.

**10. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Ddim yn gymwys.

**11. Grym i wneud y Penderfyniad**

11.1. Nid yw'r adroddiad yn gofyn am benderfyniad.